**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a
Chyfiawnder Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

21 Mai 2024

## Opera Cenedlaethol Cymru

Annwyl Lesley,

Yr ydym yn ddiweddar wedi cael **llythyr** gan Elizabeth Atherton am Opera Cenedlaethol Cymru sydd wedi achosi llawer iawn o bryder i'n Haelodau. Mae'r llythyr yn ymwneud â'r newidiadau syfrdanol y mae Opera Cenedlaethol Cymru yn ystyried eu rhoi ar waith o ganlyniad i doriadau cyllid.

Mae Ms. Atherton wedi trefnu llythyr sy'n galw am ragor o arian i Opera Cenedlaethol Cymru (WNO), sy'n nodi:

> *"Without an urgent, emergency, bi-national funding package being secured, WNO will be forced to become part-time, which would obviously be devastating, both for those who work for the largest arts organisation that our nation has, and for Wales itself."*

Fel y gwyddoch, mae gostyngiadau yn y gyllideb ar draws y sector diwylliant wedi cael effaith andwyol sylweddol ar lawer o sefydliadau. Rydym yn bryderus iawn am yr hyn sy'n cael ei gynnig gan Opera Cenedlaethol Cymru. Hoffem wybod:

- Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal gydag Opera Cenedlaethol Cymru i sicrhau dyfodol y cwmni.
- Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, neu â Chyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau

Lloegr, ynghylch unrhyw gytundeb ariannu trawsffiniol ar gyfer Opera Cenedlaethol Cymru.

- Pa ystyriaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi i ddarparu cymorth ychwanegol i Opera Cenedlaethol Cymru, y tu hwnt i'r hyn a ddarparwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2024-25.

Rydym yn hynod bryderus y gallai'r toriadau sy'n cael eu cynnig ar draws sector y celfyddydau a diwylliant gael effaith ddinistriol ar ein bywyd cenedlaethol, yn ogystal â'n safle yn y byd. Oherwydd y diddordeb sylweddol sydd gan y cyhoedd yn y mater hwn, byddem yn ddiolchgar i gael ymateb prydlon i'n hymholiadau.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 19 Mehefin 2024 fan bellaf.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.